Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 6 Mehefin 2019

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 12 MEHEFIN 2019** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

**SYLWCH: BYDD SESIWN HYFFORDDI TRWYDDEDU AR GYFER AELODAU YN SYTH AR ÔL Y CYFARFOD**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**3 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 14)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2019 (copi ynghlwm).

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth drafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**7 CAIS AM DRWYDDED AR GYFER CERBYD HURIO PREIFAT** (Tudalennau 15 - 36)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais am Drwydded Cerbydau Hurio Preifat.

**8 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 533519** (Tudalennau 37 - 62)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 533519.

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**9 DIWEDDARIAD AR Y DATGANIAD POLISI YNGHYLCH ADDASRWYDD YMGEISWYR A THRWYDDEDAU YN Y MASNACHAU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 63 - 80)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi yn amgaeedig) yn cyflwyno Datganiad Drafft y Polisi sy'n ymwneud ag addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai yn y masnachau cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat i'w cymeradwyo o 1 Gorffennaf 2019.

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU** (Tudalennau 81 - 84)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w chymeradwyo.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield
Hugh Irving
Alan James
Brian Jones
Barry Mellor
Melvyn Mile
Arwel Roberts
Peter Scott
Rhys Thomas
Tony Thomas
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned